Love Learning for Life
Caru Dysgu am Oes

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant y Brid
Heol Yr Ysgol
Sant y Brid
CF320TB
Ffôn: 01656 880477

At: Rieni a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Y Brid.

Annwyl Randdeiliad/Ohebydd,

CYNNIG I NEWID CYMERIAD YSGOL GYNRADD YR EGLWYS YNG NGHYMRU SANT Y BRID DRWY YMESTYN YR YSTOD OEDRAN O 4 – 11 OED I 3 – 11 OED A SEFYDLU UNED FEITHRIN YN YR YSGOL.

Ar 14 Mawrth 2016, cynnigiodd Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Y Brid ymestyn ystod oedran yr ysgol a sefydlu Uned Feithrin ar dir yr ysgol.

Bu'r Corff Llywodraethol yn ymgynghori'n llawn ag ymgyngoreion rhagnodedig, a chyhoeddodd hysbysebiad statudol am y cynnig ar ddiwedd yr ymgynghori. Ni dderbyniodd y Corff Llywodreathol unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r hysbysebiad statudol am y cynnig. Wrth ddod i'w gasgliad, bu'r Corff Llywodraethol yn ystyried yr holl adroddiadau blaenorol ar y cynnig a'r ymatebion i'r ymgynghoriad a nodwyd yn yr Adrossiad Ymgynghori. Ar ôl ystyried pob mater, y mae Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Y Brid wedi cymeradwyo'r cynnig. O ganlyniad, bydd yr ysgol honno'n ymestyn ei hystod oedran o 4 – 11 i 3 - 11. Bwriadir uned feithrin newydd cael ei hadeiladu ar dir yr ysgol ac yn agor ar 3 Ionawr 2017. Ar ben hynny, bydd adeilad Blwyddyn 5 a 6 yn cael ei hymestyn gan gynnwys ystafell gotiau a mynedfa i'r brif adeilad.

Wrth gyflwyno'r cynnig, yr oedd Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Y Brid yn fodlon y byddai'n:

- cynnal ansawdd a safon addysg yn yr ardal.
- hwyluso'r broses o bonito rhwng ysgolion.
- sicrhau bod cysylltiadau cryf ac effeithiol yn cael eu meithrin â rhieni o'r cychwyn cyntaf.
- hwyluso'r ffordd i deuluoedd sydd eisoes yn gyfarwydd â'r ysgol ac yn ymddiried ynddi, fanteisio arni.

Dyma ein rhesymau dros wneud y penderfyniad wrth ystyried y ffactorau sydd wedi'u nodi yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion:-

Ansawdd a Safonau Addysg

O weithredu'r cynnig, bydd pob rhan o'r ysgol yn cael ymwelwa ar yr un safon uchel o addysg. Bydd arweiniad cryf a dulliau cyson o ddysgu ac addysgu, a gweledigaeth a gwerthoedd cyffredin ar draws yr ysgol. Bydd y cynnig yn dod â'r holl fanteision y medr darpariaeth ddi-dor o'r fath eu cynnig, ac yn rhoi mwy o gyfle i bob ddisgybl gyflawni mwy.

Yr Angen am le a'r effaith ar hygyrchedd

Bydd mwy fyth o le yn yr ysgol i blant yr ardal wedi gweithredu'r cynnig. Ar ôl cael ymestyn ei hystod oedran a nifer y plant y medr eu cynnwys, bydd yr ysgol yn dal i allu darparu ar gyfer y galw gan rieni am le.

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar drefniadua disgyblion ar gyfer teithio a cherdded i'r ysgol.

Dywedodd Estyn fod y cynigydd wedi gosod fframwaith eglur ar gyfer ated y galw cynyddol tebygol am addysg feithrin, ac y bydd o leiaf yn llwyddo i gunnal safonau persennol addysg yn yr ardal.

Cyllido addysg

Wedi ymestyn ystod oedran yr ysgol a sefydlu dosbarth meithrin ar y safle, bydd gennym fframwaith mwy effeithiol ar gyfer adeiladu ar seiliau cadarn yr ysgol bresennol. Drwy ymestyn yr ystod oedran, byddwn yn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael, ac yn gwella canlyniadau holl blant y dalgylch.

Byddwn yn parhau i weithredu'r fformiwla ariannu disgyblion yn unol â pholisi ariannu Bro Morgannwg.

Yn gywir

Ann Jenkins
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Y Brid

D. Mottram

Duncan Mottram
Pennaeth
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Y Brid